Gweithdy cyn cynhadledd Fforwm Profi Iaith 2019

TESTUN: **IEITHYDDIAETH CORPWS I YMCHWILWYR AC YMARFERWYR**

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i'r rhai sydd am ddefnyddio technegau corpws yn effeithiol ac yn effeithlon at ddibenion ymchwil ac arfer. Caiff cyfranogwyr y cyfle i archwilio corpora iaith Saesneg ac iaith Gymraeg, ystyried yr ystod eang o bosibiliadau defnyddio ymchwil corpws, ac i ddatblygu sgiliau i ganfod a defnyddio corpora at ddibenion penodol.

GWEITHDY SESIWN 1, 10.30-12.30:

"Creating and interrogating corpora: A roadmap for researchers"

Dawn Knight, Darllenydd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol, Prifysgol Caerdydd

Nod y sesiwn hon fydd dangos sut orau y gellir defnyddio offer corpws yn effeithiol wrth fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil penodol. Archwilir offer ar gyfer adeiladu corpora at anghenion unigol a darperir fframwaith egwyddorol ar gyfer dethol a defnyddio corpora presennol.

GWEITHDY SESIWN 2, 13.30-15.00:

"Exploring the National Corpus of Contemporary Welsh (CorCenCC): user-driven corpus design for under-resourced languages"

Dawn Knight, Darllenydd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol, Prifysgol Caerdydd
Steve Morris, Athro Cysylltiol yn y Gymraeg ac Ieithyddiaeth Gymhwysol, Prifysgol Abertawe

Nod y sesiwn hon fydd dangos sut y gellir ymgorffori cyfranogiad y gymuned a'r defnyddwyr yng nghynllun y corpws, ac archwilio'r berthynas rhwng ieithyddiaeth corpws a pholisi iaith. Caiff cyfranogwyr y cyfle i dreialu ac adolygu rhyngwyneb corpws sydd newydd ei ryddhau.

GWEITHDY SESIWN 3, 15.30-17.00:

"Using corpora to inform CEFR-linked assessment practices: An EAP practitioner perspective"

Lucy Davies, Cydlynydd a Hyfforddwraig Asesu, Gwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS), Prifysgol Abertawe.

Nod y sesiwn hon fydd dangos sut y gellir defnyddio corpws i ddysgwyr, sydd ar gael i'r cyhoedd ac sydd wedi'i gysylltu â lefelau CEFR*, i gefnogi asesu allbwn ieithyddol dysgwyr (*Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop).